



Swanmac.ltd (2020)

Yr Ysgol...

Ar yr ail o Fai 2017 agorwyd yr ysgol newydd werth £9.8 miliwn ar ôl proses tua dwy flwyddyn. Mae’r ysgol Newydd yn un adeilad mawr mewn siâp ‘U’ sydd o gwmpas ardal chwarae yn y canol (Cyngor Abertawe 2019). Trwy gydol yr holl broses adeiladu roedd lluniau ar gael ar wefan yr ysgol, sydd wedi sicrhau fod pawb yn y gymuned yn ymwybodol o’r datblygiad.

Lleolwyd yr ysgol yn nhref Llansamlet yn Abertawe. Mae tua 510 o ddisgyblion, 53% yn fechgyn a 47% yn ferched (LoCrating 2020). Ysgol gyfrwng y Gymraeg yw’r ysgol, mae’r Cymreictod yn elfen bwysig fawr i’r ysgol. Yn ôl Adroddiad Estyn (2018) mae 7% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim sydd yn isel iawn wrth weld fod Llywodraeth Cymru (2020) yn dweud bod 85,731 o blant ar draws Cymru yn derbyn prydiau ysgol am ddim.

Iaith.....

Mae’r ysgol yn gweithio’n galed iawn i hyrwyddo’r iaith Cymraeg. Mae tua 10% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref meddai’r Adroddiad Estyn (2018). Cynhaliwyd cwrs blasu 4 wythnos ar gyfer dysgu Cymraeg am £6. Ar gyfer y cwrs cyfan, mae’n para 20/30 wythnos ac yn cael ei rhedeg gyda phrif ysgol Abertawe. Mae cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer rhieni sydd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Gall yr adnoddau cael ei weld ar wefan yr ysgol. YGG Lon Las (2020). Mae ysgol yn hyrwyddo Cymreictod ac yn gymuned agos sy’n helpu datblygu gyda’i gilydd, y disgyblion ar athrawon, ochr yn ochr. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio’r iaith Gymraeg yn gywir ac yn gallu trafod a chael sgwrs gyda’i chyd- ddisgyblion a’r athrawon.

Yr Ysgol a’r Gymuned...

Mae’r ysgol ar gymuned gyda pherthynas cadarnhaol iawn. Dysgais o’r profiad pontio bod yr ysgol yn rhoi’r cyfle i’r gymuned defnyddio neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau gwahanol megis dawnsio neu chwaraeon. Dyma Hwb a lleoliad pwysig i’r gymuned allu dod at ei gilydd a mwynhau fel un. Dysgais fod hi’n bwysig i ddisgyblion weld perthynas da gyda’r ysgol a’r gymuned er mwyn teimlo ei bod nhw’n perthyn i gymuned. Mae’n bwysig bod y disgyblion yn adnabod ei wreiddiau ac yn dysgu am y traddodiadau a diwylliannau sydd yn ei gymuned nhw. Mae’r ysgol pontio yn gweithio gyda’r gymuned yn rheolaidd sydd yn cynnwys marchnad Abertawe, gorsaf tan Dreforys, nyrsys y cymuned, yr heddlu ar gyngor cymunedol. Mae’r holl sefydliadau yma yn bwysig iawn i’r ysgol a’r gymuned ac yn ffordd ddefnyddiol iawn o gael y disgyblion i ddysgu mwy am yr ardal yn ogystal â dysgu nifer o sgiliau hanfodol.

Dechrau wrth fy nhraed



Katie Rose Boulter

Rhif Myfyriwr: 190113

ECAD4009C

Y disgyblion...

Prif ffocws yr ysgol yw fod y ddisgyblion sydd yng nghanol popeth. Er mwyn datblygu disgyblion iach, gwybodus, creadigol a galluog mae angen iddyn nhw deimlo’n ddiogel ac yn perthyn. Dywed adroddiad Estyn (2018) mae pob disgybl yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn datblygu yn dda wrth symud lan yr ysgol. Yn ôl Adroddiad Estyn (2018) mae’r disgyblion yn barod i gynnig help i’w gilydd pryd mae angen. Dywed bod y disgyblion yn chwarae rôl fawr i gynllunio a pharatoi gwersi ac yn dewis themâu a gweithgareddau i wneud yn y dosbarth. Yn sicr mae rhoi’r cyfrifoldeb i’r disgyblion yn fuddiol iawn ac yn ysbrydoli nhw i weithio. Gan fod y disgyblion mor awyddus i ddysgu ac mae’r ysgol yn agos iawn gyda’r gymuned mae triplau ysgol yn ddefnyddiol iawn ac yn gyffrous iawn i’r plant. Mae ymddygiad da yn rhan fawr o’r ysgol felly mae triplau ysgol yn ddigon syml oherwydd bydd pawb yn ymddwyn. Un dechneg mae’r ysgol yn defnyddio yw Arfer Adferol sydd yn ffordd o ddisgyblu’r disgyblion sydd yn dechneg effeithiol iawn.

Rhieni/Gofalwyr...


Hysbyswyd popeth am y rhieni ar ‘parent mail’ sydd yn ffordd syml a defnyddiol ar gyfer cadw i fyny gyda’r newyddion diweddaraf. Un ffordd i’r rhieni bod yn rhan o’r ysgol yw trwy ymuno’r CRACH, mae’r holl wybodaeth yn cynnwys pryd mae’r cyfarfod nesaf ar y wefan ysgol. Pwysleisia’r ysgol y pwysigrwydd cael perthynas agos a cadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr. Dywed Save the Children bod plant yn gwario 80% o’i amser tu fas i’r ysgol, felly mae cael rhieni neu ofalwyr gwybodus ac awyddus yn help mawr. Mae adran ar wefan yr ysgol i rieni allu rhoi neges i’r swyddfa neu i gael sgwrs.

Dywed Wales Online (2020) bod tua 124,643 o blant yng Nghymru yn byw yn tlodi, nid yw pob rhiant yn gallu talu am ddyddiau allan i lefydd hwyl ac addysgiadol. Mae’n bwysig bod yr ysgol yn gallu mynd a pob plentyn allan i’r llefydd yma er mwyn cael dechrau teg ar y thema yn y dosbarth. Bwysig yw hi fod pawb wedi cael yr un cyfle ac wedi cael y profiadau yna er mwyn sicrhau tegwch.

Yn y dosbarth...


Gan fod plant yn gwario tua 20% o’i amser yn yr ysgol meddai Save the Children (2020), mae’r amser yna yn werthfawr. Er mwyn sicrhau bod y dysgu a’r addysgu yn llwyddiannus yn y dosbarth mae angen i’r amgylchedd teimlo’n ddiogel ac yn gyfforddus. Yn yr ysgol pontio roedd y dosbarthiadau yn lliwgar ac yn gartrefol gyda gwaith y plant a lluniau ar y waliau. Roedd ardaloedd dysgu gwahanol megis, ardal peintio, tywod, dwr, darllen a thechnoleg. Yn y dosbarth mae nifer o weithgareddau sydd yn caniatâi i’r disgyblion datblygu yn cynnwys amser cylch, gemau adeiladu, lliwio a gwaith ipad.

Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar weithio tu allan yn yr awyr agored. Roedd trafndiaeth glir yn y dosbarth wrth i bontio llorweddol digwydd. Gyda’r plant yn gweithio tu allan ac yn y dosbarth mae’n bwysig fod y plant yn ymwybodol o’r gwaith sydd angen iddyn nhw gwblhau. Mae’r gweithgareddau tu allan yn sicrhau bod y plant yn datblygu i fod yn unigolion iach hyderus. Mae annibyniaeth, creadigrwydd a dealltwriaeth y disgyblion yn gwella wrth gael lle diogel i archwilio. Mae gyda nhw’r rhyddid i ymateb i sefyllfeydd, cyfleoedd i wneud gwerthusiadau ei hunain a chael profiadau ymarferol gyda risg wrth ddefnyddio pob synnwyr. Dyma nifer o sgiliau bydd yn werthfawr iddyn nhw wrth archwilio’r byd a chymuned o’i gwmpas.



Theori Maslow...

Wrth edrych ar y diagram isod ar theori Maslow mae’n amlwg fod camau gwahanol sydd angen i unigolyn cyflawni er mwyn teimlo llwyddiant. I gyrraedd potensial llawn mae angen dechrau gydag anghenion sylfaenol fel cysgod, bwyd a dŵr. Yn ail mae angen teimlo’n ddiogel. Nesaf yw ffurfio perthnasoedd cryf a theimlo elfen o gariad ac yna teimlo’n fri gydag elfen o lwyddiant McLeod (2020). Ar ôl yr holl gamau yma mae unigolyn yn teimlo fel ei bod nhw wedi cyrraedd ei llawn botensial. Nid yw pob disgybl yn derbyn y ffactorau sylfaenol yma felly mae angen i’r ysgol sicrhau bod bwyd a dŵr, teimlad o ddiogelwch, ffrindiau a pherthnasoedd cryf, a llwyddiant er mwy datblygu’r unigolyn.



Kitapunya.net (2016)

Theori Bronfenbrenner...

Yn syml theori Bronfenbrenner yw sut mae perthnasoedd yn cael effaith ar unigolyn. Gall y perthynas fod yn uniongyrchol o’r ysgol, ffrindiau a rhieni neu gall u perthynas fod yn anuniongyrchol o waith y rhieni sydd yn effeithio ar y rhiant ac felly yn effeithio ar yr unigolyn. Mae nifer o ffactorau yn gallu effeithio ar yr unigolyn yn cynnwys yr ardal maen nhw’n byw neu berthynas y rhieni gyda’r athrawon meddai Tannenbaum (2018). Mae sicrhau fod perthnasoedd ac amgylchedd cadarnhaol o amgylch yr unigolyn cael effaith mawr ar y ffordd mae’n dysgu a datblygu.

Llyfryddiaeth

Adroddiad Estyn (2018) Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Ysgol%2520Gynradd%2520Gymraeg%2520L%25C3%25B4n%2520Las%2520en.pdf> (Darllenwyd: 12 Rhagfyr 2020)

Cyngor Abertawe (2019) *YGG Lon Las Project – complete* Ar gael yn: <https://www.swansea.gov.uk/newygglonlasbuild> (Darllennwyd: 10 Rhagfyr 2020)

Llywodraeth Cymru (2020) *Stats Wales: Pupils eligible for free school meals by local authority, region and year* Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk/pupilseligibleforfreeschoolmeals-by-localauthorityregion-year> (Darllenwyd: 10 Rhagfyr 2020)

LoCrating (2020) *Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las* Ar gael yn: <https://www.locrating.com/schools-Ysgol-Gymraeg-Lon-Las-0wlsh6702036.aspx> (Darllenwyd: 10 Rhagfyr 2020)

McLeod (2020) Simply Psychology *Maslow's Hierarchy of Needs* Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/maslow.html> (Darllenwyd; 13 Rhagfyr 2020)

Save the Children (2020) *Wales* Ar gael yn: <https://www.savethechildren.org.uk/what-we-do/uk-work/wales> (Darllenwyd: 13 Rhagfyr 2020)

Tannenbaum, R. (2018) [Fideo] *Bronfenbrenner's ecological theory* Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=HV4E05BnoI8> (Darllenwyd: 14 Rhagfyr 2020)

Wales Online (2020) The areas of Wales where the most children live in poverty Ar gael yn: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/areas-wales-most-children-live-18154457> (Darllenwyd: 12 Rhagfyr 2020)

YGG Lon Las (2020) Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk> (Darllwneyd 14 Rhagfyr)

Lluniau

Theori Maslow- Kitapunya.net (2016) [Llun] Ar gael yn: <https://www.kitapunya.net/terori-motivasi-karyawan-hieararki-maslow/>

Yr ysgol- Swanmac.ltd (2020) [Llun] Ar gael yn: <https://www.swanmac.co.uk/2017/04/roller-and-vertical-blinds-for-lon-las-school-in-swansea/>